

Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Mehfin 2011

OFT1109

(h) Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhychu'r cyhoeddiad hwn (heblaw am logo'r Swyddfa Masnachu Teg) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y goron a nodi teitl y cyhoeddiad.

CYNNWYS

<i>Pennod</i>	<i>Tudalen</i>
1 Cyflwyniad	4
2 Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Masnachu Teg	5
3 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	6
4 Wyneb cyhoeddus	8
5 Gweithredu'r Cynllun	11
6 Dangosyddion perfformiad ychwanegol	14
7 Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg	15
8 Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad	16
A System sgorio'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer llunio cyhoeddiadau	17
B Diweddariad i'r dyddiad targed	21

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad monitro hwn yw amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) rhwng 1 Ebrill 2010 ac 31 Mawrth 2011 wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg¹ a nodi meysydd ar gyfer gwella.

¹ www.ofc.gov.uk/about-the-ofc/accessing-information/cynlluniaiithgymraeg

2 CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y SWYDDFA MASNACHU TEG

- 2.1 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru i lunio Cynllun Iaith Gymraeg.
- 2.2 Mae Cynllun Iaith Gymraeg yr OFT (y Cynllun) yn disgrifio sut y bydd yn gweithredu, cyhyd ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau a chyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- 2.3 Mae'r Cynllun hefyd yn trafod darpariaeth y gwasanaethau a gynigir gan Cyswllt Defnyddwyr, neu wasanaethau a ddarperir o dan frand Cyswllt Defnyddwyr, oni nodir yn wahanol.
- 2.4 Mabwysiadwyd Cynllun Iaith Gymraeg yr OFT yn 2010. Dyma adroddiad monitro cyntaf yr OFT.

3 DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Gohebiaeth

- 3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, ni fu angen llunio unrhyw ymatebion Cymraeg i ohebiaeth. Fodd bynnag, mae gwasanaethau gohebiaeth yn gyson â'r Cynllun ac mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y darperir ymatebion Cymraeg i ohebiaeth pan fo'n ofynnol.
- 3.2 Defnyddir y system sgorio cyhoeddiadau (gweler Atodiad A) i nodi'n wrthrychol pa ohebiaeth safonol a chylchlythyrau a gaiff eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog.

Cyfathrebu dros y ffôn

- 3.3 Mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, y gellir siarad ag ef gan ddefnyddio'r un rhif ffôn, ar gael i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd os dymunant dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg.
- 3.4 Ar hyn o bryd, ni chaiff y gwasanaeth ffôn Cymraeg ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg.
- 3.5 Ni fu angen rhoi unrhyw ymateb Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.
- 3.6 **ARGYMHELLIAD:** Diweddarau'r ddolen 'contact us' ar wefan yr OFT i adlewyrchu'r gwasanaeth dwyieithog.

Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

- 3.7 Ni chynhaliodd yr OFT unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn unol â'r Cynllun.

Cyfarfodydd eraill yng Nghymru

- 3.8 Mae trafodaethau bord gron wedi'u cynnal â rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol yng Nghymru. Dilynwyd y fformat safonol y cytunwyd arno yn y Cynllun Iaith Gymraeg i gynnal y cyfarfodydd yn Saesneg.

- 3.9 Pan fo'n hysbys bod y cyfarfod yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, a bod aelod o staff yr OFT sy'n siarad Cymraeg yn bresennol, bu'r gair o groeso ar y dechrau a'r gair o ddiolch ar y diwedd yn Gymraeg ac wedyn yn Saesneg.

Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

- 3.10 Ni chynhaliodd yr OFT unrhyw seminarau/cyrsiau hyfforddi nac arolygon yng Nghymru y gallai'r cyhoedd gymryd rhan ynddynt yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r Cynllun.

4 WYNEB CYHOEDDUS

Ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 4.1 Lluniwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunydd gwybodaeth a deunydd hyrwyddo i'r cyhoedd ar gyfer ymgyrchoedd defnyddwyr yn 2010-11, gan gynnwys cyngor ar-lein ar gyfer yr ymgyrch Ticiwch a deunyddiau argraffu ar gyfer yr ymgyrchoedd Sgamnest ac Atal Benthycwyr Arian Didrwydded.²
- 4.2 Yn ogystal, darparodd yr OFT fersiynau Cymraeg o fodiwlau 'Skilled to go' ar sgamiau a phrynu a gwerthu i'w defnyddio gan Wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol. Roedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn union yr un peth ac roeddent ar gael ar yr un pryd ac yn yr un ffordd.
- 4.3 Mae'r OFT wedi ystyried yr angen i gyfieithu'r holl ddeunyddiau i'r Gymraeg a, lle y bo'n briodol, wedi gofyn i sefydliadau perthnasol yng Nghymru am gyngor ar y galw am ddeunyddiau o'r fath. Anfonwyd y cais am adborth ar gyfieithiad Skilled to go³ i 177 o gysylltiadau yng Nghymru ac ni chafwyd unrhyw ymatebion.
- 4.4 Defnyddir y system sgorio cyhoeddiadau (gweler Atodiad A) i nodi'n wrthrychol pa ddeunyddiau y dylid eu cyfieithu.
- 4.5 Am fod y Llywodraeth wedi rhewi gwariant ar farchnata yn ystod 2010-11, dim ond nifer fach iawn o ddeunyddiau a luniodd yr OFT ar gyfer ymgyrchoedd i'r cyhoedd. O gofio'r cyfyngiad ar wariant ym maes marchnata ni hysbysebodd mewn unrhyw bapurau newydd yn ystod y flwyddyn.

² www.oft.gov.uk/OFTwork/consumer-protection/campaign10-11

³ www.oft.gov.uk/skilledtogo

- 4.6 O gofio'r cyfyngiad a nodwyd uchod ar wariant ym maes marchnata, ni hysbysebodd yr OFT mewn unrhyw gyhoeddiadau Cymraeg yn ystod 2010-11.
- 4.7 Ni chynhaliodd yr OFT unrhyw ymgyrchoedd teledu yn ystod 2010-11.
- 4.8 Mae llinell ffôn Cyswllt Defnyddwyr yn cyfeirio'r rhai sy'n ffonio at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sydd ar gael drwy'r un rhif ffôn os dymunant dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg.

Cyhoeddiadau

- 4.9 Ar wahân i'r deunyddiau cyhoeddusrwydd a nodir uchod, ni nodwyd unrhyw ddeunyddiau eraill, gan ddefnyddio'r system sgorio, yn rhai yr oedd yn ofynnol eu cyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwefannau

- 4.10 Mae gwefan yr OFT yn cyrraedd y safonau gofynnol a nodir gan y Cynllun Iaith Gymraeg sy'n cynnwys:
- y bydd tudalen ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg⁴
 - y bydd botwm 'Cymraeg' yn y pennyn ar bob tudalen.
- 4.11 Nodir y cyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg yn adran cyhoeddiadau gwefan yr OFT ac fe'u cyhoeddir ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg pan fyddant ar gael.⁵

⁴ www.ofg.gov.uk/about-the-ofg/accessing-information/cynlluniaithgymraeg

www.ofg.gov.uk/about-the-ofg/accessing-information/welshlanguagescheme

⁵ www.ofg.gov.uk/OFTwork/publications

- 4.12 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ei gwefannau presennol, gall gynnwys gofynion Cymraeg yn system bresennol y wefan.
- 4.13 Mae swyddogaeth Gymraeg gwefan Cyswllt Defnyddwyr ar gael o hyd yn absenoldeb gwasanaeth cyfatebol gan DirectGov.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 4.14 Ni fu'r gwasanaethau hyn yn ofynnol yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r Cynllun.
- 4.15 Defnyddir y system sgorio cyhoeddiadau (gweler Atodiad A) i nodi'n wrthrychol pa ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig a gaiff eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 4.16 Ni chafwyd unrhyw hysbysiadau na hysbysebion a ddosbarthwyd yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru ac ni hysbysebwyd unrhyw swyddi lle yr oedd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r Cynllun.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 4.17 Nid yw'r OFT wedi cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg a fu'n berthnasol i gynulleidfa yng Nghymru yn benodol ac felly nid yw unrhyw un o'i datganiadau i'r wasg wedi'u cyfieithu i'w cyhoeddi yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r Cynllun.

5 GWEITHREDU'R CYNLLUN

Staffio

- 5.1 O dan y Cynllun Iaith Gymraeg, mae'n ofynnol i'r OFT ofyn am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi a staff presennol.
- 5.2 Gofynnodd yr OFT am wybodaeth gan staff ar eu sgiliau Cymraeg mewn ymarfer archwilio sgiliau a gynhaliwyd dros bum mlynedd yn ôl.
- 5.3 Nid yw'r OFT yn gofyn i ymgeiswyr am swyddi roi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd.
- 5.4 **ARGYMHELLIAD:** Nodi cyfleoedd i ddiweddarau data ar sgiliau Cymraeg staff presennol.
- 5.5 **ARGYMHELLIAD:** Ymchwilio i'r prosesau sydd eu hangen i ofyn i ymgeiswyr am swyddi roi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg.

Recriwtio

- 5.6 Ni nodwyd unrhyw swyddi yn yr OFT lle mae'n ddymunol neu'n hanfodol bod yn rhugl yn y Gymraeg.

Hyfforddiant iaith

- 5.7 Mae gwasanaethau'r OFT yn gyson â'r Cynllun ac mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflwyno hyfforddiant iaith. Ni fu unrhyw geisiadau am hyfforddiant iaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

- 5.8 Nid yw gwasanaethau'r OFT yn gyson â'r Cynllun ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw systemau TGCh eu datblygu na'u prynu yn ystod y cyfnod adrodd.

- 5.9 Mae'r OFT wrthi'n tendro am wasanaethau TGCh (rheoli, datblygu a chynnal y we a meddalwedd). Mae'r broses gaffael yn dechrau ym mis Mehefin 2011 ac mae'n para tan fis Rhagfyr 2011.
- 5.10 **ARGYMHELLIAD:** Caiff Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu hystyried yn ystod y broses dendro hon.

Gwaith partneriaeth

- 5.11 Mae gan bob aelod o'i grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru ei bolisi iaith Gymraeg ei hun. Mae hyn yn cynnwys y sefydliadau hynny â'u prif swyddfa yn Lloegr. Mae pob un o'r sefydliadau yn cydnabod yr agweddau penodol ar bob cynllun.

Trefniadau mewnol

- 5.12 Datblygwyd y Cynllun Iaith Gymraeg gyda chefnogaeth lawn yr uwch dîm ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd.
- 5.13 Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldebau cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'i amcanion gwaith sy'n cynnwys gweithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith.
- 5.14 Uwch Swyddog Gwybodaeth sy'n gyfrifol am y broses o gyflwyno, monitro ac adolygu'r cynllun hwn ac fe'i goruchwylir gan y Pennaeth Marchnata ac Ymgyrchoedd.
- 5.15 Nodir prif ddyddiadau targed yr OFT ar gyfer cyflawni'r cynllun ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch yn Atodiad B.
- 5.16 Cyhoeddir y Cynllun ar wefan yr OFT.⁶

⁶ www.of.gov.uk/about-the-oft/accessing-information/cynlluniaithgymraeg

www.of.gov.uk/about-the-oft/accessing-information/welshlanguagescheme

- 5.17 Ar hyn o bryd, nid oes canllawiau i staff ar y Cynllun Iaith Gymraeg.
- 5.18 Darperir gwasanaeth cyfieithu gan gyfieithwyr proffesiynol yn y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog.
- 5.19 **ARGYMHELLIAD:** Llunio canllawiau i staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a'u rhannu ym mhob rhan o'r swyddfa gan ddefnyddio sianeli priodol megis y fewnrwyd.
- 5.20 **ARGYMHELLIAD:** Sicrhau bod yr holl brosesau presennol y mae'r Cynllun yn effeithio arnynt yn gyfredol ac yn meddu ar y wybodaeth briodol i gyflawni'r cyfrifoldebau yn y Cynllun.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- 5.21 Ni fu unrhyw geisiadau Cymraeg o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth na'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae prosesau priodol ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r Cynllun.

Monitro

- 5.22 Bwriedir cyflwyno'r adroddiad monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 30 Mehefin 2011 yn unol â'r cais, a fydd yn cynnwys:
- adroddiad ysgrifenedig sy'n amlinellu cyflawniadau ac argymhellion
 - ei chynnydd wrth gyflawni'r Cynllun hwn yn erbyn y targedau - gweler Atodiad B.
- 5.23 Mae Adroddiad Blynyddol yr OFT yn cyfeirio at ei gweithgarwch yn y gweinyddiaethau datganoledig.

6 DANGOSYDDION PERFFORMIAD YCHWANEGOL

6.1 Gofynnwyd am ddata blynyddol ar y dangosyddion perfformiad ychwanegol canlynol.

Technoleg gwybodaeth

6.2 Nid yw gwasanaethau'r OFT yn gyson â'r Cynllun ar hyn o bryd:

- nid aseswyd unrhyw systemau TG gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd
- ni luniwyd unrhyw gynlluniau gwella ar ôl asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd.

6.3 **ARGYMHELLIAD:** Dylid anfon manylion cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd i'r adrannau priodol yn yr OFT i'w hystyried pan gaiff systemau TG a chynlluniau gwella newydd eu datblygu.

Gweinyddu'r Cynllun

6.4 Mae gwasanaethau'r OFT yn gyson â'r Cynllun ac mae prosesau priodol ar waith i sicrhau hyn. Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparwyd gan yr OFT yn ystod y cyfnod adrodd.

7 PRIF FFYRDIO'R IAITH GYMRAEG

7.1 Mae'r OFT wedi cymryd nifer o gamau sy'n annog y broses o brif ffrydio'r iaith Gymraeg yn ei pholisïau, ei mentrau a'i gweithgareddau. Ymhlith y rhain mae:

- cynnal ymgynghoriad ymhlith partïon â diddordeb yng Nghymru mewn perthynas â chyfieithu deunyddiau Skilled to go
- rhoi deunyddiau hyrwyddo Cymraeg i Swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru ar gyfer ymgyrchoedd Sgammest ac Atal Benthycwyr Arian Didrwydded
- sicrhau y diwellir anghenion siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru
- darparu cyswllt Cymraeg yn y swyddfa ar gyfer unrhyw ymholiadau yn Gymraeg a sicrhau bod aelod o Dîm Partneriaeth Safonau Masnach yn canolbwyntio ar faterion mewn perthynas â Chymru.

7.2 **ARGYMHELLIAD:** Ymchwilio i'r posibilrwydd o gymhwyso cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar brif ffrydio'r iaith Gymraeg yn fwy ffurfiol ym mhob rhan o'r swyddfa, yn benodol:

- cynnwys yr iaith Gymraeg mewn prosesau asesu effaith corfforaethol
- datblygu cyngor a chanllawiau i staff.

8 CYHOEDDI GWYBODAETH AM BERFFORMIAD

8.1 Bydd yr Adroddiad yn:

- cael ei gymeradwyo gan Ddirprwy Gyfarwyddwr cyn iddo gael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg
- cael ei ledaenu i bob aelod o staff gan gynnwys Aelodau Bwrdd ac Uwch Gyfarwyddwyr yr OFT
- cael ei roi ar y fewnrwyd.

8.2 Dyma'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf i'w gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae ar gael ar wefan yr OFT.⁷

⁷ www.offt.gov.uk/about-the-offt/accessing-information/cynlluniauithgymraeg

A SYSTEM SGORIO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG AR GYFER LLUNIO CYHOEDDIADAU

- A.1 Diben y ddogfen hon yw cynnig dull o helpu i benderfynu p'un a ddylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg ai peidio, ac os felly, a ddylid llunio dogfennau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- A.2 Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac anhyblyg. Dylid ei defnyddio i helpu gyda'r dasg o bennu'r ffordd ymlaen ym mhob achos. Os gwneir penderfyniad i beidio â gweithredu yn unol â'r system sgorio, mae'n rhaid i ni allu egluro pam.
- A.3 Dylid cadw dogfen sgorio ar ffeil ar gyfer pob cyhoeddiad, fel cofnod o'r broses sgorio.

System sgorio (7 cwestiwn)

1. Nifer y copïau a argraffir bob blwyddyn:

1 i 500	sgôr = 1
500 i 5,000	sgôr = 5
dros 5,000	sgôr = 10

sgôr =

2. Y gynulleidfa darged:

y cyhoedd	sgôr = 10
rhan benodol o'r cyhoedd	sgôr = 5
unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol	sgôr = 1

sgôr =

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes **neu** ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â'r Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, yr henoed, amaethyddiaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau - neu a fydd yn cael ei anelu at ardaloedd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg yn unig:

bydd	sgôr = 5
na fydd	sgôr = 0

sgôr =

4. Am faint y bydd y cyhoeddiad yn cael ei ddefnyddio? (Ni ddylid ystyried ailargraffu'r cyhoeddiad, newidiadau bach fel newid y flwyddyn ar frig y

cyhoeddiad, neu newid rhan o'r cyhoeddiad i adlewyrchu rheolau newydd, yn ddiwedd cylch bywyd yr hen fersiwn). **Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori**, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn lle hynny (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):

0 i 6 mis	sgôr = 1
6 mis i 2 flynedd	sgôr = 5
dros 2 flynedd	sgôr = 10

sgôr =

5. Nifer y geiriau yn y cyhoeddiad:

0 i 1000	sgôr = 6
1000 i 5000	sgôr = 4
dros 5000	sgôr = 2

sgôr =

6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau **mewn fersiwn uniaith** o'r cyhoeddiad:

1 i 10	sgôr = 6
10 i 20	sgôr = 4
dros 20	sgôr = 2

sgôr =

7. (Cwestiwn ar gyfer **dogfennau ymgynghori yn unig**). Ymdrîn â phwnc sy'n:

Arbenigol / technegol iawn	sgôr = 1
Gweddol gymhleth ond o ddiddordeb i lawer	sgôr = 5
Hawdd ei ddeall / o ddiddordeb cyffredinol	sgôr = 10

sgôr =

CYFANSWM Y SGÔR =

Cymharwch eich sgorau isod

Cymharwch gyfanswm eich sgôr â'r ystodau sgorau isod i weld a oes angen **fersiwn papur** o'r cyhoeddiad:

0 i 22 Nid oes angen llunio fersiwn Cymraeg.

23 i 28 Dylid ystyried o ddifrif lunio fersiwn Cymraeg. Dylid llunio crynodeb Cymraeg o leiaf.

dros 28 Dylid llunio fersiwn Cymraeg.

Adiwch eich **sgorau o gwestiynau 2, 3, 4, 5 a 7 yn unig** a chymharu'r cyfanswm â'r ystodau sgorau isod i weld a oes angen **fersiwn electronig** o'r cyhoeddiad ar gyfer gwefan yr OFT:

0 i 14 Nid oes angen llunio fersiwn Cymraeg.

15 i 18 Dylid ystyried o ddifrif lunio fersiwn Cymraeg. Dylid llunio crynodeb Cymraeg o leiaf.

dros 18 Dylid llunio fersiwn Cymraeg.

Penderfyniad ar gyhoeddi dogfen ddwyieithog, neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

- A.4 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylid **ffafrio dogfennau dwyieithog** yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fel man cychwyn. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws yn weinyddol (o ran rheoli a dosbarthu stoc) na darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae iddo hefyd fanteision o ran diwallu anghenion teuluoedd lle y siaredir mwy nag un iaith, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod y ddau fersiwn o'r ddogfen yr un mor hygyrch mewn unrhyw leoliad - fel nad oes angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng gorfod defnyddio'r fersiwn Saesneg, neu ofyn am y fersiwn Cymraeg a gorfod aros o ganlyniad.
- A.5 Fodd bynnag, gellir penderfynu cyhoeddi dogfen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân os bydd y gost ac ymarferoldeb hynny yn golygu bod cyhoeddi fersiynau ar wahân yn anochel. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau yn y ddogfen (pe byddai llunio fersiwn dwyieithog yn ei gwneud yn rhy swmpus ac anhydrin).
- A.6 Ar gyfer dogfennau a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a ddosberthir 'yn ôl y galw' (er enghraifft, fel ymateb i ymgyrch hysbysebu) a lle y mae'r defnydd disgwylidig o'r ddogfen yn fach, efallai y bydd modd cyfiawnhau ei chyhoeddi ar wefan yr OFT yn unig i ddechrau. Yn yr achosion hyn, dylai fod yn barod i drefnu argraffu copi caled o'r ffurflen, ar gais y cyhoedd. Gellir gwneud hyn yn fewnol, neu drwy argraffwyr proffesiynol.

- A.7 Nid yw'r cyngor hwn ar gyhoeddi dogfen yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn berthnasol i ddogfennau a gyhoeddir ar wefan yr OFT. Bydd dogfen electronig Gymraeg, wrth reswm, yr un mor hygyrch â'r ddogfen Saesneg, p'un a gaiff ei chyhoeddi fel dogfen ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- A.8 Cliciwch [yma](#) i weld *Canllawiau Dylunio Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyswllt ar gyfer gwasanaeth cyfieithu Cymraeg

Steffan Jones - COI

steffan.jones@coi.gsi.gov.uk

Llinell uniongyrchol: 020 7261 8338

B DIWEDDARIAD I'R DYDDIAD TARGED	Dyddiad cwblhau	Cynnydd
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg		
Gohebiaeth	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd gydag argymhellion ar gyfer gwella
Cyfarfod cyhoeddus yng Nghymru	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Wyneb cyhoeddus		
Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Cyhoeddiadau	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Gwefannau	O fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig.	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Gweithredu'r Cynllun		
Staffio a recriwtio	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Rhywfaint o gynnydd gydag argymhellion ar gyfer gweithgarwch pellach
Hyfforddiant iaith	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Pan gyhoeddir y Cynllun	Dim cynnydd gydag

	hwn	argymhellion ar gyfer gweithgarwch pellach
Gwaith partneriaeth	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Trefniadau mewnol	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd i raddau helaeth gydag argymhellion
Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Amgylcheddol	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Monitro	Pan gyhoeddir y Cynllun hwn	Cyflawnwyd
Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol		
Technoleg Gwybodaeth	~	Dim cynnydd gydag argymhellion ar gyfer gweithgarwch pellach
Gweinyddu'r Cynllun	~	Cyflawnwyd